
# Darganfod Ceredigion

## Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria



Cymru
Wales

CEREDIGION · CYMRU · WALES · PAYS DE GALLES



*Cwm Rheidol*

# Croeso

## Dyma'ch cyfle i ddod i adnabod Ceredigion a'i phobl - y Cardis.

Cymerwch amser i ddarganfod ac i ail ddarganfod un o ardaloedd Cymreicaf Cymru, ardal sy'n ymfalchïo yn ei hiaith, ei diwylliant a'i hetifeddiaeth. Mae'r croeso a'r hwyl gewch chi yng Nheredigion mor wresog ag erioed a gallwch ymlacio a mwynhau yng nghwmni ffrindiau hen a newydd. Dyma lle cewch brofiad sy'n cyfuno'r traddodiadol a'r cyfoes a'r pwyslais bob amser ar safon.

Mae enwau Ceredigion yn chwedlonol - ond pa mor dda ydych chi'n adnabod tref y coleg ger y lli a chyfres *Y Gwyll*, man geni'r eisteddfod neu rygbi yng Nghymru, gwersyll cyntaf yr Urdd neu'r mynyddoedd lle tardd afon hiraf Cymru?

Dewch draw i ddarganfod beth sydd gennym i'w gynnig.

An English language version of this publication is available.

Tra bo Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod manylion y cyhoeddiad hwn yn gywir, ni all y Cyngor Sir dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau, manylion anghywir neu amryfusedd nac ychwaith am unrhyw fater yn gysylltiedig â neu yn deillio o ganlyniad i gyhoeddi'r wybodaeth.

**Cyhoeddwyd gan** Gwasanaeth Twristiaeth Ceredigion, Canolfan Rheidol, Aberystwyth SY23 3UE
© Cyngor Sir Ceredigion 2020. Cedwir pob hawl.
**Ffotograffiaeth** ©Janet Baxter; Iestyn Hughes, Alan Hale, Ed Moore, Y Talbot, Crown Copyright (2020) Visit Wales, Aberystwyth Arts Centre.

**Dyluniwyd yng Ngheredigion, Cymru** www.four.cymru **Argraffwyd yng Nghymru** The Westdale Press.

De la baie de Cardigan aux monts Cambriens, vous découvrirez de magnifiques plages, des couchers de soleil à couper le souffle, des villes commerçantes très animées et des paysages incroyables. Vous aurez le choix entre des auberges champêtres traditionnelles et des hôtels modernes au bord du littoral où vous pourrez déguster la savoureuse cuisine locale. Au programme: des sensations fortes en plein air, des plages réputées, l'observation des grands dauphins dans la baie, un époustouflant chemin côtier et d'innombrables sentiers montagneux et forestiers. N'oubliez donc pas votre sens de l'aventure pour profiter de tous les atouts du comté de Ceredigion et vivre une expérience inoubliable.

Desde la Bahía de Cardigan hasta las Montañas Cambrian, descubrirá preciosas playas, impresionantes puestas de sol, animados mercados locales y espectaculares paisajes. Encontrará tradicionales posadas rurales, modernos hoteles costeros y una excelente gastronomía típica. Viva emocionantes aventuras al aire libre, disfrute de las playas que han recibido numerosos premios, contemple los delfines mulares en la Bahía, admire las increíbles vistas haciendo un recorrido por la costa o adéntrese por el sin fin de rutas que recorren sus montañas y bosques. Ceredigion tiene todo lo que necesita para hacer una escapada inolvidable, lo único que no debe olvidarse en casa es su espíritu aventurero. de tous les atouts du comté de Ceredigion et vivre une expérience inoubliable.



*Mwnt*

Van Cardigan Bay tot en met de Cambrian Mountains ontdekt u prachtige stranden, adembenemende zonsondergangen, bedrijvige marktstadjes en ongeëvenaarde uitzichten. U vindt hier traditionele herbergen, trendy kusthotelletjes en overheerlijke plaatselijke gerechten. U kunt genieten van spannende avonturen in de openlucht, bekroonde stranden, dolfijnen in de Bay, een verbazingwekkend wandelpad langs de kust en plenty mogelijkheden voor een berg- en boswandeling. In Ceredigion vindt u alles wat u tijdens een heerlijk weekendje weg of een langere vakantie maar nodig kunt hebben, zolang u uw avontuurzucht maar niet thuis laat.

Zwischen Cardigan Bay und den Gebirgszügen der Cambrian Mountains bieten sich Ihnen wunderschöne Strände, überwältigende Sonnenuntergänge, lebhafte Marktstädtchen und ein bezauberndes Panorama. Hier lassen sich traditionelle Landgasthöfe, schicke Küstenhotels und die Genüsse der einheimischen Küche entdecken. Genießen Sie Nervenkitzel und Outdoor-Abenteuer, preisgekrönte Strände, Delfine in der Bucht, einen atemberaubenden Küstenweg sowie Wald- und Höhenwege in Hülle und Fülle. Ceredigion hat alles, was Sie zum Abschalten brauchen, aber vergessen Sie nicht, Ihren Entdeckergeist mitzubringen.

# Môr braf

Dyma arfordir sy'n swyno, gyda threfi a phentrefi fel Aberaeron, Y Cei Newydd, Tresaith, Aberporth a Llangrannog yn galw. Penrhynion prydferth, cuddfannau smyglwyr yr oes a fu a harbyrau bach hudolus, arfordir treftadaeth ac ardaloedd cadwraeth arbennig - dyma yw cyfrinach Ceredigion.

Dewch i hwylio neu rwyfo gyda chlybiau pentrefi'r arfordir. Cewch gwmni hwyliog i syrffio a hwylfyrddio, neu i'ch arwain mewn ceufad i ddarganfod traethau ac ogofâu cudd.


Dyma le gwych i fwynhau gyda'r teulu - codi cestyll tywod, chwilota ym mhyllau'r creigiau; gwylio gwylanod a dolffiniaid a physgota am grancod. Mae gennym draethau glân bendigedig sy'n ennill gwobrau Baner Las, Glan Môr ac Arfordir Gwyrdd yn gyson, a hynny'n brawf o'u safon.



*Cilborth, Llangrannog*





# Dilyn y llwybr

Dolen rhwng dwy afon - Teifi a Dyfi - sy'n cysylltu Sir Benfro yn y de ac Eryri yn y gogledd. Llwybr 60 milltir o hyd sy'n dilyn bwa bae mwyaf Cymru a thirlun sy'n newid pob cam o'r daith.

Gallwch gerdded rhannau o lwybr arfordir Ceredigion yn hamddenol braf: oedi i wylio dolffiniaid, morloi ac adar y glannau yn gysurus yn eu cynefin, mwynhau'r olygfa draw am Enlli a Phen Llŷn neu aros am sgwrs gyda chymeriadau'r fro.

Ond cofiwch chi, nid yw'r ffaith eich bod yn cerdded yr arfordir yn golygu bod y tirwedd yn wastad, o na. Cewch ddringo i fyny at fryngaerau Oes Haearn, chwilio am ogofâu smyglwyr rhwng y creigiau, oeri'r traed yn y môr a chymryd cawod naturiol o dan y rhaeadr ar draeth Tresaith.







*Llwybr Arfordir Ceredigion*




Borth

# Ar frig y don

Ceredigion amdani am hwyl chwaraeon dŵr ac i fwynhau golygfeydd godidog ar yr un pryd. ‘Does dim prinder cyfleon am weithgareddau dŵr ar hyd Arfordir Treftadaeth Ceredigion.

Archwiliwch ogofâu a thraethau dirgel mewn caiac a chael cipolwg ar forloi, dolffiniaid ac adar y môr ar hyd eich taith. Dysgwch sut i hwylio yn Y Cei Newydd neu syrffio a hwylfyrddio ar draeth hir Y Borth. Os yw'r heli yn eich gwaed, galwch heibio harbyrau Aberystwyth, Aberaeron a'r Cei Newydd. Mae bron pob un o glybiau hwylio Bae Ceredigion yn cynnal regata blynyddol ac mae tîmau rhwyfo môr di-ri, pob un ag awch go iawn am gystadleuaeth.







*Aberporth*



*Y Cei Newydd*



*Mwnt*



# Ar lan y môr

Fel geiriau'r gân boblogaidd mae'r tywod yn euraidd ar draeth Llangrannog. Yno hefyd mae Carreg Bica a phyllau creigiog i'w harchwilio. Dychmygwch eich hun yn un o storïau smyglwyr T Llew Jones, pysgotwch am grancod a mecryll a chasglwch froc môr a cherrig i greu campwaith celf. Does dim byd gwell na gwyliau ar lan y môr - awyr iach a hwyl i'r teulu cyfan.

Ble mae ein traethau gorau? Wel, mae gennym emau yn ein casgliad pob cam o'r Borth i Aberporth. Traethau Baner Las ac Arfordir Gwyrdd: caffis braf, hufen iâ ac achubwyr bywyd yn goruchwylio dros fisoedd yr haf.

Dringwch dwyni tywod Ynyslas a phan ddewch chi o hyd i'n coedwig tanddwr, gwrandewch am glychau Cantre'r Gwaelod o'r golwg dan y dŵr.

*Penbryn*

# Ar droed, beic a cheffyl



*Llwybr Ystwyth, Aberystwyth*

Chwant am awyr iach? Yn ogystal â Llwybr yr Arfordir mae llwybrau gwych i'w cerdded ar draws cefn gwlad Ceredigion. Llwybrau sy'n arwain pob cam o'r mynydd i'r môr. O heicio i gopa Pumlumon yn ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria i ymlwybro tawel ar hyd dyffrynnoedd Aeron, Teifi, Ystwyth a Rheidol.

Mae beicio hamddenol i'r teulu cyfan ar hyd llwybrau pwrpasol a chilffyrdd tawel. Ond os ydych chi'n feiciwr mynydd brwd â'ch bryd ar chwysu a sgramblo drwy'r mwd, bryniau a choedwigoedd, Bwlch Nant yr Arian yw'r lle i chi.

Gallwch ddod â'ch ceffyl ar wyliau hefyd - mae gennym ddewis o ganolfannau marchogaeth a milltiroedd lawer o lwybrau ceffyl.




*Claerddu, Llynnoedd Teifi*



# Darganfod y tymhorau

Digyfnewid yw tymhorau'r ddinas, ond yn y wlad gallwch weld a theimlo'r tymhorau'n troi, pob un â'i ogoniant unigryw i'n cyfareddu. Gwanwyn mwyn yn troi'n haf hirfelyn tesog, lliwiau cynnes yr hydref a boreuau barugog y gaeaf. Clychau'r gog a'u harogl melys sy'n dod gyda'r gwanwyn - fe welwch chi nhw ar gyrion Aberystwyth ac Aberaeron, ar lethrau coediog afonydd Ystwyth, Rheidol a Teifi, a hyd yn oed ar lethrau'r arfordir.

'Does dim fel machlud haul dros orwel Bae Ceredigion yn Y Borth neu Ynyslas ar noson braf o haf a lliwiau'r coed yn troi ar daith y trên ar hyd dyffryn y Rheidol. Misoedd y gaeaf wrth gwrs yw'r gorau ar gyfer gweld lliwiau coch Cors Caron a chawodydd o sêr gwib yn yr awyr glir dros draeth Penbryn, neu yn nhywyllwch pur Mynyddoedd Cambria.

*Hafod*




*Llanerchaeron*



*Tynbedw*



*Trawsgoed*



*Coed Penglanowen*



*Y Cei Newydd*





Soar y Mynydd



Claerddu, Llynnoedd Teifi

# Mynyddoedd Cambria

Disgrifiwyd yr ardal hon yn berffaith gan George Borrow, y teithiwr a'r awdur o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pe byddai'n dod yn ôl heddiw, ni fyddai'n gweld llawer o wahaniaeth ym Mynyddoedd Cambria. Llethrau Pumlumon yw tarddle afonydd Ystwyth a Rheidol ac afonydd mawrion Hafren a Gwy. 760 milltir sgwâr o weunydd a grug, llynnoedd Nant y Moch, Brianne a Chlaerwen a cheunentydd coediog a'u rhaeadrau gwyllt.

Saif trefi a phentrefi fel Talybont, Ponterwyd, Tregaron a Llanddewi Brefi ar gyrion y mynyddoedd. Mwynhewch dawelwch Ystrad Fflur, Cwmystwyth a Soar y Mynydd - mannau ymgynnull i'r mynachod, y mwyngloddwyr a'r porthmyn gynt. Mae ystâd ysblennydd yr Hafod yn un o'r enghreifftiau gorau yn Ewrop o dirwedd Darluniaidd a phontydd a rhaeadrau Pontarfynach wedi bod yn denu ymwelwyr ers canrifoedd.



Pumlumon a Nant y Moch



# Byw yn y wlad

O lynnoedd Teifi i lawr i aber y Teifi trwy galon Ceredigion, cewch drefi marchnad, pentrefi diddorol a thirwedd naturiol. Dewch i weld ystâd Plas Llanerchaeron lle gwelwch erddi a fferm o'r 18fed ganrif a chyfarfod â chrefftwyr heddiw. Neu cerddwch lwybrau coediog ystâd Yr Hafod lle crewyd y golygfeydd braf gan Thomas Johnes.

Mae gan y sir guriad calon arbennig sy'n ddwfn yng ngwead y tymhorau mewn cymunedau Cymreig a Chymraeg trwy gydol y flwyddyn. Ceredigion yw sir y corgi brith a'r merlod a'r cobiau Cymreig sy'n cael eu hedmygu dros y byd pan ddaw'r amser i gystadlu ym myd y sioeau mawr. Dathlwn osgeiddrwydd y ceffylau yn Sadwrn Barlys Aberteifi ym mis Ebrill ac mewn sioeau mawr a bach ar hyd a lled y sir.



*Llanerchaeron*





*Tregaron*





*Drudwy, Aberystwyth*



*Y Barcud Coch*



*Dolffiniaid Trwynbwl*

# Cip ar fyd natur

Da chi, peidiwch ag anghofio'ch sbienddrych. Mae ein pentiroedd yn frith o flodau gwyllt a ieir bach yr haf ac yn fannau delfrydol i oedi i wylio dolffiniaid trwynbwl Bae Ceredigion, heb sôn am y frân goesgoch a'r hebog glas.

Mae ein traethau a'n cilfannau tawel yn hafanau diogel i forloi a'u lloi, ein corsydd mawnog yn denu'r gylfinir, y cornicyll a'r cornchwiglen, tra bo'r heligog ac adar drycin Manaw yn gwbl gartrefol ar greigiau geirwon y clogwyni.

Un o ryfeddodau naturiol mwya'r flwyddyn yw gwylio tyrfa o filoedd o adar yr eira, neu'r drudwy (aderyn Branwen), wrth iddynt ymgasglu dros bier Aberystwyth ar fachlud haul o'r hydref tan y gwanwyn, tra bo gweilch y môr yn cael croeso yn y gwanwyn i'w cynefin haf ym Miosffer Dyfi.



# Antur i'r gorffennol

Mwnt

Dewch am daith trwy hanes Ceredigion a saif rhwng Gwynedd, Powys a'r Deheubarth. Taith i ddarganfod Oes y Tywysogion a beirdd a chantorion hen a newydd.


Fel Dewi Sant yn Llanddewi Brefi, bu'r Methodist, Daniel Rowland yn pregethu i dyrfa fawr yn yr awyr agored yn Llangeitho. Dyma hefyd fro mebyd yr Apostol Heddwch, Henry Richard.

Bu cloddio am blwm, aur ac arian yng Ngheredigion ymhell cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd. Ar un adeg roedd Dyffryn Teifi yn ganolfan i'r diwydiant gwlân sy'n parhau hyd heddiw a gallwch ddilyn llwybrau pererinion ar hyd yr arfordir a'r porthmyn dros y bryniau. Roedd hyd yn oed y cymunedau lleiaf ar hyd yr arfordir yn llawn prysurdeb adeiladu llongau i hwylio o Geredigion i bedwar ban byd.



Aberteifi





Castell Aberteifi



Castell Aberystwyth

# Ein Llwybrau Celtaidd



Yn ôl pob sôn, mae teithio'n ehangu'r gorwelion, ond mae rhai teithiau yn gwneud mwy na hynny. Maent yn rhoi golwg ar y byd drwy lygaid gwahanol. I weld hanesion a chwedlau yn dod at ei gilydd. I weld cydbwysedd a chytgord yn ein byd prysur.

Dilynwch ein Llwybrau Celtaidd trwy Orllewin Cymru a Hen Ddwyrain Iwerddon a chewch ddewis llwybrau prin eu defnydd a phob un yn mynd â chi'n agosach at yr arfordir a chefn gwlad, y lleoedd sydd wedi llunio'r diwylliant cryf a rennir gan bobl ein dwy wlad o hyd. Clywch rythmau'r byd naturiol yng ngoslef ein lleisiau. Cewch grwydro tirluniau gwyllt sy'n ysbrydoli anturiaethau bob dydd. Dewch o hyd i bentrefi lliwgar lle bydd pobl yn eich croesawu fel cymydog, diwylliant sy'n rhoi gwerth ar groeso cynnes i deithwyr a ffarwel cartrefol i ffrindiau newydd. Dyma ein Llwybrau Celtaidd.

**www.llwybrauceltaidd.cymru**

LLWYBRAU CELTAIDD
**CELTIC ROUTES**
BEALAÍ NA gCEILTEACH



*Llangrannog*



*Borth - Ynyslas*



*Ystrad Fflur*



# Ffordd Cymru

O Aberdaron ar Benrhyn Llŷn i Dyddewi yn Sir Benfro, mae Ffordd Cymru yn ymlwybro trwy'r gorau o Geredigion: harbyrau lliwgar a threfi glan môr, ar hyd arfordir sy'n frith o fywyd gwyllt. Oedwch mewn pentrefi pysgota, cilfannau cudd a thraethau Baner Las godidog; troediwch lwybr arfordir Ceredigion neu eisteddwch yn ôl i fwynhau ysblander y Bae.

Cymerwch lwybr igam ogam i gyfeiriad Mynyddoedd y Cambria i chwilio am drysorau cudd Ceredigion mewn trefi marchnad ac erwau maith o dir agored. Chwiliwch am olion treftadaeth y mynachod a'r mwyngloddwyr a dilynwch ôl troed cymeriadau y gyfres deledu, Y Gwyll.

Blaswch y gorau o fwyd môr, cynnyrch fferm a chwrw lleol Ceredigion mewn bwytai, tafarnau a marchnadoedd ar hyd y daith.

Dilynwch y llwybr mewn car, ar droed, beic neu geffyl - neu hyd yn oed drên stêm.

*Arfordir Ceredigion*



*Aberaeron*



*Aberteifi*



*Cwmtydu*



*Aberystwyth*




# Chwant am fwyd

Sewin, brithyll ac eog o ddyfroedd llynnoedd ac afon Teifi, cimychiaid a chrancod Bae Ceredigion a mecryll Y Cei Newydd sydd ar fwydlen Ceredigion. Cynnyrch llaeth Ceredigion oedd sail busnesion llewyrchus yn Llundain 'slawer dydd, ac heddiw gallwch fwynhau cynnyrch llaethdai Ceredigion ar ffurf caws, iogwrt neu hufen iâ mêl. I dorri syched, cewch ddewis o ddŵr ffynnon, neu beth am wydriaid o win neu gwrw o winllan neu fragdy lleol.

Dyma lle cewch chi'r cawl gorau ar ddydd Gŵyl Dewi, yn ein barn ni, a blasu byd mewn bwytai da a dyfeisgar. Crwydrwch Geredigion o flas i flas. Dilynwch eich trwyn o gwmpas siopau a ffermydd y sir i flasu'r cyfan yng nghwmni'r cynhyrchwyr. Mae cynnyrch o safon ar werth mewn siopau lleol, marchnadoedd fferm ac mewn gwyliau bwyd yn Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth a Llambed. Y cyfan yn ffres ac yn lleol.



# Antur artistig

Dyma gynefin Aneurin, arluniwr y cobiau a sawl ffotograffydd lleol o fri. Mae merched yn amlwg ym myd celf Ceredigion hefyd o grëwyr di-enw cwiltiau'r gorffennol i artistiaid cyfoes fel Mary Lloyd Jones, Ruth Jên a Rhiannon, i enwi dim ond tair.

Dewch ar draws orielau a gweithdai artistiaid a chrefftwyr o bob math mewn trefi a phentrefi ar hyd a lled Ceredigion. Mae nifer ohonynt yn arfer crefftau traddodiadol gyda gogwydd modern - turnwyr coed, gemyddion cain, cerflunwyr a chrochenwyr ac arlunwyr sy'n llwyddo i gyfleu bywyd cefn gwlad ac arfordirol Ceredigion yn berffaith.

Mae Aberystwyth yn ganolfan artistig arbennig, gyda gwyliau, ffeiriau, arddangofeydd a sgyrsiau celf trwy gydol y flwyddyn. Neu beth am drefnu i ddilyn cwrs creu yng nghwmni artist neu grefftwr - cewch ddigon o ysbrydoliaeth yn nhirlun ac arfordir y sir.





*Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth*










Gŵyl Gomedi Aberystwyth



Gŵyl Seiclo Aberystwyth



Parêd Llusernau Aberteifi






Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

# Dyna ddifyr

Dewch i fwynhau gwyliau amrywiol Ceredigion - cewch groeso twymgalon a digon o hwyl a sbri.

Ymlaciwch i swyn cerddoriaeth gyfoes mewn gigs bach a mawr ar draws y sir. Mae'r traddodiad eisteddfodol yn fyw ac iach o Benrhyncoch i Fryngwyn a Thalgarreg. Cewch artistiad o bob cwr o'r byd yn diddanu yn Aberteifi ac Aberystwyth, cartref sawl gŵyl a digwyddiad sy'n dathlu cerddoriaeth, celf, llên a hanes sy'n rhyngwladol ei safon ond cartrefol ei naws.

Cewch fwynhau hwyl cefn gwlad hefyd. Dewch i Geredigion am gyffro'r rasys ceffylau harnais, cneifio neu feicio proffesiynol; dewch i gystadlu gyda'n rhwyfwyr afon a hwylwyr môr, neu beth am sialens dŵr a mwd wrth daclo ein rasys cors a mynydd.







# Cynefin y Cardi

Troed yr Aur a Derwen Gam, Llanwenog a Ffostrasol - enwau hudolus cefn gwlad Ceredigion - pob un â chymeriad unigryw a digon o hanes, o harbwr Aberteifi i Stesion Strata.

Pa mor dda ydych chi'n adnabod trefi a phentrefi arfordir Ceredigion fel Aberaeron, Aberporth a Thresaith, Llangrannog neu'r Cei Newydd? Tref y coleg ger y lli yw Aberystwyth, ond cewch ffraethineb doeth yn nhrefi marchnad Tregaron, Llambed ac Aberteifi ac mae hwyl i gael yn Llandysul gyda'r pysgota a'r padlo. Mae ein pentrefi gwasgaredig yn llawn cymeriad a chymeriadau. Dyma lle dewch chi ar draws y Cardi go iawn a lle mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn fyw.



*Y Cei Newydd*

# Trefi a phentrefi

### Aberystwyth

Cartref y coleg ger y lli ac atgofion melys am gerdded y prom a chicio'r bar. Siopau stryd fawr a siopau bach â chymeriad, caffis croesawgar a bwytai sy'n gweini bwyd y byd. Bywyd celfyddydol prysur: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, amgueddfa'r sir a chanolfan celfyddydau heb ei hail. Harbwr, marina a rheilffordd stêm. Tref glan môr go iawn.

### Aberaeron

Un o emau Ceredigion. Tref harbwr hyfryd sy'n enwog am ei phensaernïaeth a'u hadeiladau lliwgar. Lle da am fwyd o gynnyrch lleol ac i siopa am rywbeth bach spesial. Plas ac ystad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron gerllaw - dilynwch y llwybr ar hyd glan yr afon.

### Aberteifi

Tref ganoloesol fu'n fan geni'r Eisteddfod. Heddiw mae'n fwrlwm o greadigrwydd gyda siopau a galerïau diddorol, theatrau, cyngherddau, gwyliau bwyd a cherddoriaeth a dathliadau cefn gwlad, yr afon a'r arfordir yn dod ynghyd. Clwb golff uchel ei barch, tripiau bywyd gwyllt ac arfordir ysblennydd Ceredigion gerllaw.



*Aberystwyth*



*Aberaeron*



*Aberteifi*

# Trefi a phentrefi

**Pontarfynach**
Pentref y rhaeadrau, y tair pont a chwedl yr hen wraig a'r diafol. Teithiwch yma ar y trên stêm ar hyd cwm Rheidol. Un o leoliadau straeon mwyaf dramatig *Y Gwyll* a phorth i'r Hafod a Chwmystwyth.

**Tregaron**
Ardal Twm Siôn Cati, y porthmyn a'r Apostol Heddwch. Abaty Ystrad Fflur, Llanddewi Brefi, Llangeitho a Soar y Mynydd gerllaw. Bywyd gwyllt Gwarchodfa Natur Cors Caron a physgota da ar lynnoedd ac afon Teifi.

**Llanbedr Pont Steffan**
Tref farchnad a phrifysgol. Gwyliau cerdd, bwyd, crefft a chwrw. Traddodiad eisteddfod, gwlân a chwiltiau, sioeau meirch ac amaeth. Cerdded, merlota a physgota da. Man geni rygbi Cymru.

**Llandysul**
Tref hanesyddol ar afon Teifi. Pysgota da am frithyll, sewin ac eog a lle da i ganŵio hefyd. Gwlad y melinau gwlân ac Amgueddfa Wlân Cymru gerllaw.

**Biosffer Dyfi**
Biosffer cyntaf Cymru. Canolfan y Dechnoleg Amgen, senedd-dy cyntaf Cymru, hanes y mwynwyr yn Ffwrnes a Thalybont, llwybrau'r beirdd a gwarchodfeydd Ynyslas ac Ynyshir.

**Dyffryn Teifi**
Saif castell tref farchnad Castell Newydd Emlyn ar fwa yn afon Teifi, tra bod castell Cilgerran ar graig uwch ceunant llydan. Cenarth amdani am raeadrau, cwryglau a physgota am eog.


*Pontarfynach*


*Cors Caron, Tregaron*


*Biosffer Dyfi*


*Llanbedr Pont Steffan*


*Llandysul*


*Cenarth, Dyffryn Teifi*




Borth



Y Cei Newydd



Llangrannog



Aberporth



Mwnt



Penbryn



Aberystwyth

# Traethau

### Borth, Ynyslas, Clarach

Tair milltir o dywod braf sy'n ymestyn o graig yr Wylfa yn Y Borth am dwyni tywod a gwarchodfa natur Ynyslas. Lle da ar gyfer syrffio a gweithgareddau dŵr o bob math. Creigiau trawiadol sydd naill ben i draeth tywod Clarach. Achubwyr bywyd ar draethau Clarach a'r Borth yn yr haf.

### Aberystwyth

Dau draeth poblogaidd dan ofal achubwyr bywyd. Mae'r promenâd milltir o hyd yn ymestyn o'r harbwr hyd at reilffordd y clogwyn, heibio'r pier, y bandstand a'r jeti. Lle gwych i wylio'r machlud ac i syrffio, pysgota o'r traeth a gwylio bywyd gwyllt.

### Y Cei Newydd

Dewis o dri thraeth gwahanol: traeth Y Dolau a thraeth Yr Harbwr yn fwrlwm o weithgareddau tra bod Traethgwyn yn dawelach - ond cofiwch gadw llygad ar y llanw. Eisteddwch ar bier Penpolion i fwyta'ch sglods a gwylio'r dolffiniaid.

### Llangrannog

Hoff draeth plant yr Urdd a'u teuluoedd. Dewiswch rhwng Traeth y Pentref a thraeth Cilborth gyda Charreg Bica yn sefyll yn gadarn rhwng y ddau. Traeth syffrwyr a rhwyfwyr brwd. Achubwyr bywyd dros yr haf.

### Cwmtydu

Rhed afon Dewi lawr trwy'r traeth cerrig lle mae'r creigiau a'r ogofâu'n hafan i fywyd gwyllt. Bu'r harbwr naturiol yma gynt yn guddfan i smyglwyr ac mae olion caer hynafol Castell Bach gerllaw.

### Tresaith ac Aberporth

Mae'r penrhyn rhwng traethau Aberporth a'r llwybr gwastad tua Tresaith yn un o'r llefydd gorau i weld dolffiniaid. Tywod melyn braf, achubwyr bywyd dros yr haf a gweithgareddau traeth a dŵr.

### Penbryn a Mwnt

Dau o draethau hyfryd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Traethau tawel o dywod melyn: Penbryn yn cysgodi rhwng llethrau coediog a'r Mwnt a'r eglwys fach wyngalchog yn sefyll uwch ei ben. Llefydd gwych i wylio'r sêr fin nos.

# Mynd am dro

### Y mynydd mwyaf
Cewch ddewis o bum llwybr i ben Pumlumon: o Nant y Moch, heibio Llyn Llygad Rheidol, neu dilynwch ôl troed Caradog Jones, y Cymro cyntaf i gyrraedd copa Everest.

### Dilyn y llif
Dilynwch afonydd Ystwyth Rheidol, Aeron a Teifi, trwy goedlannau llawn blodau gwanwyn a lliwiau'r hydref, ac ewch i Ffwrnais, Pontarfynach a'r Hafod i weld a chlywed rhyferthwy eu rhaeadrau.

### Yn ôl troed y mwynwyr
O'r Borth i Bontarfynach a Phontrhydfendigiad drwy dirwedd dwy fil o flynyddoedd o fwyngloddio. Fe welwch hefyd leoliadau ffilmio *Y Gwyll* a stori eliffant Tregaron.

### Llwybrau hygyrch a hawdd
Dyfroedd gwyllt rhaeadrau Cenarth, tangnefedd Cors Caron, dolffiniaid Aberporth, barcutiaid coch Bwlch Nant yr Arian, a'r drudwy dros bromenâd Aberystwyth gyda'r machlud: mae'n hawdd mwynhau bywyd gwyllt Ceredigion.

### Tro trwy'r dref
Gyda map neu ap, gallwch ddilyn llwybrau hanes trefi Aberteifi, Llandysul, Llambed, Tregaron, Aberystwyth ac Aberaeron.

### Bryngaerau'r môr a'r mynydd
Pendinas, Pendinas Lochtyn, a Chastell Bach yn gwarchod yr arfordir ac yn y mynydd-dir mae Pen y Bannau, Castell Rhyfel a Chaer Cadwgan gydag enwau atgofus o'r gorffennol a golygfeydd godidog y presennol.

Ewch i wefan
**DarganfodCeredigion.cymru**
am fanylion llwybrau cerdded Ceredigion.


*Llwybr Arfordir Ceredigion*


*Llynnoedd Teifi*


*Pumlumon*



*Aberystwyth*


*Cors Caron, Tregaron*


*Hafod*

# Ceredigion


## Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria




*Llangrannog*

*Cwm Berwyn*

*Atgynhyrchir yr holl fapiau yn seiliedig a'r Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.' Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2020.*



CYNGOR SIR
CEREDIGION
COUNTY COUNCIL

WALES · CYMRU · PAYS DE GALLES

# Darganfod Ceredigion

Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria

T 01970 612125
01545 570602
E croeso@ceredigion.gov.uk
@DiscoverCeredigion
@VisitCeredigion

*Rheilffordd Stêm Cwm Rheidol*